# CYNGOR CYMUNED CLYNNOG FAWR

-------------------------------------------

Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Clynnog fawr a gynhaliwyd yn Neuadd y Pentref, Clynnog nos Fawrth 21ain Ebrill 2026

**1.** Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod

**2. Ymddiheuriadau** - Eirian Allport, Iwan Williams, Guto Rhys Huws, Gwenno Griffiths, Siôn Tomos a Rhys Jones

**Presennol –** Aaron Hughes (cadeirydd), Eifion Jones, Ken Williams, Thomas Williams, Elias Jones ac Eleri Owen,

**3. Cofnodion cyfarfod 17eg o Fawrth 2026** – Cynigwyd gan Thomas Williams ac eiliwyd gan Elias Jones fod y cofnodion yn gywir.

**4 . Materion yn Codi**

1. Ynys Wyllt - roedd e-bost wedi ei dderbyn gan gyfreithwraig newydd o fewn y cwmni sydd yn anffodus yn nodi na fysai yn medru helpu gyda gwerthu'r tir pan ac os ddaw'r amser ac mai ond helpu gyda chofrestru'r tir y bysai. Trafodwyd y mater a gweld na fysa hyn yn gweithio a gweld mwy o synnwyr mewn cael un cyfreithiwr i wneud y gwaith i gyd. Cynigwyd y dylid gyrru atynt i gyfleu hyn a gofyn am y gwaith papur i gyd yn nôl. Aaron Hughes i holi LWH am gyfreithwyr efallai y gallwn ddefnyddio.

2. Mynediad i'r fynwent – gofyn i'r cwmni cyfreithwyr lle maent arni gyda hyn.

3. Pont Tai Lôn a Pantafon – y gwaith yma dal heb ei orffen ond ar y gweill.

4. Arwydd cyflymder - angen holi Cyng. Dafydd Davies lle mae Cyngor Gwynedd arni gyda hyn, gan fod ei angen wedi ei osod.

5. Biniau - Holi Cyng. Dafydd Davies lle mae Cyngor Gwynedd arni gyda hyn - bin baw ci wrth lwybr Cae'r Bont a biniau wrth y Garej. Hefyd, gofyn am fin baw ci yn Aberdesach wrth y safle bws dros ffordd i'r fynedfa i'r lân môr.

6. Cwynion am chwyn o gwmpas y pentrefi – dal angen gwaith ar y strydoedd. Aaron Hughes i holi am hyn.

7. Ffoes Simbil - dal dim wedi ei wneud. Cyng. Dafydd Davies wedi siarad gyda swyddog a oedd yn ymddeol ac roedd am ei basio ymlaen i'r swyddog newydd. Cyng. Davies wedi gofyn iddynt gysylltu er mwyn trefnu mynd yno.

8. Golau Nadolig - Gofyn i Gyngor Gwynedd osod golau stryd wrth y diffib ym Mhontllyfni a rhoi socet ar gyfer coeden yr un pryd - dilyn fyny hefo Cyng. Dafydd Davies am hyn.

9. Torri Gwair - gwair wedi ei dorri yn ddiweddar ym Mhontllyfni. Angen holi os ydi'r chwe toriad yn cael ei wneud eto eleni, a gofyn a oes modd cael toriadau yng Nghlynnog hefyd.

10. Arwyddion llwybr lan môr - wedi derbyn neges bod yr arwyddion yn barod a gofyn i rywun fod ar gael i ddangos iddynt y lleoliadau i'w gosod. Trafod lle i'w gosod a chyfarfod gyda nhw.

Arwyddwyd ………………………………………………………… (Cadeirydd)

Dyddiad ……………………………………………………………….

11. Goryrru - cwynion am oryrru yn Nhai Lôn. Trafod beth ellir ei wneud i geisio lleihau hyn. Nodwyd nad oes terfyn cyflymder yn Nhai Lôn - angen gofyn y cwestiwn pam, ac os oes posib cael terfyn. Goryrru yng Nghlynnog hefyd - nodi hyn wrth holi am Dai Lôn. Meddwl bod angen arwydd 20mya fwy wrth y gyffordd o'r by-pass fel mae pobl troi fewn i'r pentref. Hefyd, holi ynglŷn â chael speed bumps.

**5. Ceisiadau cynllunio** - Penlon, Clynnog fawr - nodi ein bod yn gwybod bod yna wrthwynebiad yn lleol ond mewn egwyddor nid oes gan y Cyngor Cymuned wrthwynebiad.

Garej Clynnog – dim gwrthwynebiad.

**6. Materion ariannol**

a) Sefyllfa ariannol ar 31ain Mawrth 2026

| | |
|---|---|
| Cyfrif cadw (elusen) | £159.70 |
| Cyfrif cyfredol | £7963.13 |

b) Aelodaeth Unllais - £222.00 – cytuno i'w dalu

c) Trafodwyd a phenderfynwyd penodi Cyngor Gwynedd yn archwilwyr mewnol ar gyfer y Cyngor Cymuned.

**7. Llofnodi Addewid Cwrteisi a Pharch** - trafodwyd ac edrych drwy'r addewid a chytunwyd i'w arwyddo.

**8. Polisi Cynllun Hyfforddi** - trafodwyd a edrychwyd ar y cynllun oedd wedi ei baratoi a phenderfynu ei basio.

**9. Gohebiaeth -** pawb wedi cael copïau o'r ohebiaeth ac nid oedd dim yn codi.

**10. Materion aelodau** - Ken Williams - gofyn i'r clerc gysylltu â'r sawl o Nebo i gael trafod y canclwm. Eifion Jones - arwydd 40 Pontllyfni wedi dechrau disgyn ac angen rhywun ddod i edrych arno.

**11. Materion eraill -** ebost wedi ei dderbyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â chyflwr llwybrau - trafodwyd a gofyn i'r clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd am hyn ac ymateb yn nôl i'r cyhoedd ein bod wedi gwneud hyn.

**12. Cyfarfod nesaf -** Bydd y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned yn cael ei gynnal ar nos Fawrth, 19 o Fai 2026 am 7.30 yr hwyr yn y Neuadd Bentref yng Nghlynnog. Cyfarfod blynyddol hefyd.

Arwyddwyd ………………………………………………………… (Cadeirydd)

Dyddiad …………………………………………………………….